Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

CYNLLUN CYHOEDDI

Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
CAERFYRDDIN
SA31 2PF

RHAN 1

Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

Cynllun Cyhoeddi ar y We
Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Cyflwyniad

Rôl a Chyfrifoldebau Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

Mae Awdurdod Heddlu Dyfed Powys yn gorff annibynnol wedi ei ffurfio o bobl leol. Ein gwaith ni yw sicrhau bod heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer ardal Dyfed Powys ac i sicrhau bod y prif swyddogion a'r heddlu'n atebol i chi wrth gyflawni eu dyletswyddau a gwasanaethu ein cymunedau.

Awdurdod Heddlu Dyfed Powys sy'n pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yn Nyfed Powys ac mae'r Prif Swyddog yn atebol i'r Awdurdod ynghylch y gwasanaeth plismona a ddarperir. Darparu gwasanaethau plismona lleol i chi, y cyhoedd, yw rôl Prif Swyddog yr Heddlu.

Mae gennym nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol. Y prif rai yw:

- sicrhau heddlu lleol effeithlon ac effeithiol
- dal cyllideb yr heddlu a dyrannu adnoddau
- penodi (a diswyddo, os oes angen) y Prif Gwnstabl ac uwch swyddogion yr heddlu
- ymgynghori'n eang gyda phobl leol ynghylch plismona'u hardal
- pennu blaenoriaethau plismona lleol a thargedau i'w cyrraedd
- monitro popeth y mae'r heddlu'n ei wneud a pha mor dda y maent yn perfformio yn erbyn y targedau a osodwyd gan yr Awdurdod
- cyhoeddi cynllun strategol tair blynedd a blynyddol sy'n dweud wrth bobl leol beth allant ei ddisgwyl gan eu gwasanaeth heddlu a rhoi gwybod am gyflawniadau bob blwyddyn
- sicrhau bod pobl leol yn cael y gwerth gorau gan eu heddlu lleol
- goruchwylio cwynion yn erbyn yr heddlu a disgyblu uwch swyddogion

Efallai y byddai'n gymorth i chi wybod mai cyfrifoldeb y Prif Swyddog a'r Heddlu yw gweithrediadau'r heddlu a'i bod yn fwy tebygol mai gan yr Heddlu ac nid Awdurdod yr Heddlu y bydd gwybodaeth am unigolion yn cael ei chadw.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Derbyniodd Deddf Rhyddid Gwybodaeth (RhG) 2000 Gydsyniad Brenhinol ar 30 Tachwedd 2000. Mae'n rhoi hawl mynediad cyffredinol i bob math o wybodaeth wedi ei chofnodi a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, yn nodi eithriadau i'r hawl honno ac yn gosod nifer o ymrwymiadau ar awdurdodau lleol. Diffinnir 'awdurdod cyhoeddus' yn y Ddeddf, ac y mae'n cynnwys, ond nid wedi ei gyfyngu, i lywodraeth ganolog a lleol, cyrff cyhoeddus anadrannol, yr heddlu, y gwasanaeth iechyd ac ysgolion, colegau a phrifysgolion. Rhaid i unrhyw un sy'n gwneud cais i awdurdod cyhoeddus am wybodaeth gael gwybod a yw'r awdurdod cyhoeddus yn cadw'r wybodaeth honno ac, yn amodol ar eithriadau, rhaid rhoi'r wybodaeth iddynt.

Eich hawliau chi a'n cyfrifoldebau ni

O dan y Ddeddf RhG rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys Dyfed Powys, gael Cynllun Cyhoeddi yn nodi'r wybodaeth rydym yn ei osod o fewn cyrraedd y cyhoedd fel mater o drefn. Rhaid i'n cynllun gael ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth a rhaid i ni adolygu'r cynllun o dro i dro. Wrth fabwysiadu (neu adolygu) ein Cynllun Cyhoeddi, mae gofyn i ni ystyried budd y cyhoedd wrth:

- ganiatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth rydym yn ei gadw; ac
- wrth gyhoeddi'r rhesymau dros y penderfyniadau rydym yn eu gwneud.

Rhaid i'n cynllun cyhoeddi:

- nodi dosbarthiad y wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi neu'n bwriadu ei chyhoeddi;
- ddweud sut y byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ym mhob dosbarth; a
- dweud os byddwn yn darparu'r wybodaeth yn rhad ac am ddim neu'n codi tâl amdani.

Diben y Cynllun Cyhoeddi yw rhoi gwybod i chi pa wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd gennym heb i chi orfod gofyn amdani. Yr hyn rydym yn ei ystyried yn wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd yw gwybodaeth sydd ar ein gwefan (www.dyfedpowyspoliceauthority.co.uk); gwybodaeth y gellir ei chael gennym wrth wneud cais drwy lythyr, e-bost neu alwad ffôn; neu wybodaeth y gellir ei phrynu gennym.

Mae Rhan 2 ein Cynllun Cyhoeddi yn nodi'r dosbarthiadau neu'r mathau o wybodaeth rydym yn cyhoeddi neu'n bwriadu cyhoeddi. Mae Rhan 3, ein rhestr gyhoeddiadau, yn ategu'r Cynllun Cyhoeddi. Mae'n rhestri cyhoeddiadau penodol sydd ar gael i'r cyhoedd, sut y gellir eu cael ac yn nodi a ydynt yn rhad ac am ddim neu a ydym yn codi tâl amdanynt.

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth (DRhG) 2000 yn rhoi hawl i chi weld gwybodaeth gofrestredig y mae awdurdodau cyhoeddus yn ei chadw, yn amodol ar rai eithriadau.

Mae'r DdRhG yn berthnasol i'r mwyafrif helaeth o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdod Heddlu Dyfed Powys. Pan fyddwch yn gofyn i ni am wybodaeth bydd gofyn i ni:

- roi gwybod yn ysgrifenedig i chi a ydym yn cadw'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani; ac
- os ydym, ac os ydyw'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani ar gael fel mater o drefn ac y gellir ei gweld yn syth drwy wefan yr Awdurdod neu drwy ymateb ar e-bost, dylid derbyn ateb o fewn pum niwrnod gwaith.
- Os nad yw'r wybodaeth ar gael fel mater o drefn byddwn yn darparu'r wybodaeth i chi o fewn 20 diwrnod gwaith, oni bai ei bod yn amodol ar eithriad.

Y mae hefyd yn ddyletswydd arnom i ddarparu cyngor neu gymorth i chi neu i unrhyw un yn ceisio gwybodaeth (er enghraifft er mwyn esbonio beth sydd ar gael yn rhwydd neu i egluro beth a ddymunir).

Daeth hawliau mynediad llawn o dan y DdRhG i rym ar 1 Ionawr 2005.

Ar 1 Mawrth 2006 cyflwynwyd Gorchmynion/Rheoliadau pellach sy'n newid y darpariaethau mynediad at wybodaeth blaenorol gan osod rheolau haws a chliriach ynghylch amgylchiadau lle gall y cyhoedd gael eu gwahardd rhag cael gweld math arbennig o wybodaeth y gellid ystyried ei bod wedi ei heithrio neu'n gyfrinachol.

Cyfrifoldebau ar gyfer Cynllun Cyhoeddi Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

Mr Keith Reeves, Prif Weithredwr Awdurdod Heddlu Dyfed Powys sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ein Cynllun Cyhoeddi. Yr unigolyn sy'n gyfrifol am gynnal a rheoli'r Cynllun Cyhoeddi yw: -

Mr Keith Reeves
Prif Weithredwr
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF
Ffôn: 01267 226458
Ffacs: 01267 226448
E-bost: police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Cysylltu ag Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

Os hoffech gael copi cled o'n Cynllun Cyhoeddi neu unrhyw gyhoeddiad a nodir yn ein rhestr gyhoeddiadau yn Rhan 3, gallwch gysylltu â ni'n ysgrifenedig, drwy ebost neu drwy ein ffonio, gweler y manylion cyswllt isod:

Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF
Ffôn: 01267 226458
Ffacs: 01267 226448
E-bost: police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Ceir hefyd gopi o'r Cynllun Cyhoeddi ar ein gwefan:
www.dyfedpowyspoliceauthority.co.uk

Codi Tâl am Gyhoeddiadau

Dan y DdRhG mae gan yr Awdurdod y grym i wrthod darparu gwybodaeth mewn amgylchiadau arbennig oni bai bod y sawl sy'n ceisio'r wybodaeth yn talu am y gost o wneud hynny.

Yn Rhan 2, rydym yn nodi ar gyfer bob dosbarth gwybodaeth a yw'r dosbarth yn cynnwys gwybodaeth y codir tâl amdani neu beidio, a'r drefn codi tâl a allai fod yn berthnasol, fel yr esbonnir isod:

A. Yn rhad ac am ddim ar y wefan - dydyn ni ddim yn codi tâl, ond bydd y defnyddwyr, wrth gwrs, yn gorfod talu eu darparwr gwasanaeth rhyngrwyd a/neu eu cwmni ffôn yn ogystal ag unrhyw gostau personol sydd ynghlwm wrth argraffu, llungopïo ayb.

I'r rheiny heb fynediad at y Rhyngrwyd, byddwn yn darparu un allbrint o gyhoeddiad unigol, fel y dangosir ar y wefan, yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad cyswllt uchod. Fodd bynnag, yn achos ceisiadau am allbrintiau lluosog neu am gopïau archif o ddogfennau nad ydynt bellach ar gael ar y we, mae'n bosib y byddwn yn codi tâl rhesymol am gasglu, llungopïo, postio ayb.

Lle bydd y wybodaeth ar gael ar y wefan ond gwneir cais am wasanaeth gwerth-ychwanegol yn defnyddio'r wybodaeth honno, codir tâl am hynny. Bydd angen talu'r gost o flaen llaw.

B. Copi caled yn rhad ac am ddim - mae hyn yn cyfeirio at lawlyfr, taflen, llyfryn neu gyfnodolyn a gyhoeddir gennym ni. Darperir un copi yn rhad ac am ddim. Gellir codi tâl rhesymol am geisiadau am gopïau ychwanegol. Bydd angen talu'r gost o flaen llaw.

C. Copi caled y codir tâl amdano - mae hyn yn cyfeirio at gopi caled wedi ei rwymo, casét neu gynnyrch arall a nodir yn ein rhestr gyhoeddiadau lle nodir tâl arbennig. Lle codir tâl, rhoddir gwybod i chi beth yw'r gost a pham y codir tâl.

Bydd angen talu unrhyw gost o flaen llaw. Gellir codi tâl rhesymol hefyd am gais am nifer fawr o gyhoeddiadau sy'n galw am lawer o amser staff.

Sylwadau neu Gŵynion ynghylch y Cynllun Cyhoeddi

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar ein Cynllun Cyhoeddi, os ydych yn teimlo y gellid gwella'r Cynllun, neu os ydych yn credu nad ydym wedi darparu gwybodaeth yn unol â'n Cynllun, dylech ysgrifennu, yn y lle cyntaf, at:

Mr Keith Reeves
Prif Weithredwr
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Sir Gaerfyrddin
SA31 2PF

Ffôn: 01267 226458
Ffacs: 01267 226448
E-bost: police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Rydym yn anelu at ymdrin â'ch cwyn o fewn 20 diwrnod gwaith. Os ydych yn anfodlon gyda'r ymateb gallwch ofyn i'r mater gael ei adolygu'n fewnol. Rydym yn anelu at gwblhau adolygiad mewnol ac ymateb i chi o fewn 20 diwrnod gwaith pellach.

Os ydych yn parhau'n anfodlon yn dilyn yr adolygiad mewnol yna gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Adolygu Cynllun Cyhoeddi Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

Cafwyd adolygiad diwethaf ein Cynllun yn Rhagfyr 2008. Yn dilyn hynny bydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Derbyn y Cynllun mewn fformatiau eraill.

Gallwch dderbyn copi o'r Cynllun hwn mewn fformat gwahanol drwy gysylltu â'r cyfeiriad uchod.

Hawlfraint

Mae'n bosib mai eiddo cyrff gwahanol fydd hawlfraint deunydd a geir yn ein Cynllun:

Deunydd Hawlfraint Awdurdod Heddlu Dyfed Powys

Mewn perthynas â deunydd lle mai'n eiddo ni yw'r hawlfraint, gellir ei atgynhyrchu yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat ar gyfer ymchwil, astudiaeth bersonol neu i'w ddosbarthu'n fewnol o fewn sefydliad. Mae hyn ar yr amod bod y deunydd yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Lle mae deunydd yn cael ei ail-gyhoeddi neu ei gopïo i eraill, rhaid nodi'r ffynhonnell wreiddiol a chydnabod ein hawlfraint ni. Mae hawlfraint hefyd ar logo Awdurdod Heddlu Dyfed Powys ac ni ellir ei atgynhyrchu heblaw yn y modd y mae'n ymddangos ar ddeunydd a gynhyrchir gennym ni.

Deunyddiau Eraill dan Hawlfraint

Gall hawlfraint peth o'r deunydd rydym yn cynnwys yn ein Cynllun fod yn eiddo trydydd parti. Nid yw ein hawl i gadw a defnyddio deunydd o'r fath yn ymestyn i eraill. Rhaid i chi sicrhau awdurdod deiliaid yr hawlfraint berthnasol os ydych yn dymuno copïo neu atgynhyrchu deunydd o'r fath.

Ceisiadau am Wybodaeth Bersonol

Dan Ddeddf Diogelu Data 1998, mae gennych eisoes hawl statudol i weld data personol rydym yn cadw amdanoch ar gyfrifiadur neu mewn ffeil llaw strwythuredig (hynny yw, ar bapur). Y mae gennych hefyd yr hawl i ddisgwyl i ni, fel rheolwr y data, sicrhau fod y data:

- yn cael ei brosesu'n deg ac yn gyfreithiol
- wedi ei gaffael at ddibenion penodol a chyfreithiol
- yn ddigonol, perthnasol ac nid yn ormodol
- yn gywir a lle bod angen yn cael ei gadw'n gyfoes
- ddim yn cael ei gadw'n hwy na sydd angen
- yn cael ei brosesu'n unol â hawliau gwrthrych y data
- yn cael ei gadw'n ddiogel
- ddim yn cael ei drosglwyddo dramor oni bai i wledydd gyda chyfreithiau diogelu data digonol.

At ddibenion Deddf 1998, mae "gwybodaeth bersonol" yn wybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn byw y gellir ei adnabod. Yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n rheoli diben a dull prosesu'r data yw'r "rheolwr data". Ceir mwy o wybodaeth ar y Ddeddf Diogelu Data ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth neu o'r cyfeiriad isod.

Gwybodaeth lle mai Awdurdod Heddlu Dyfed Powys yw'r Rheolwr Data

Lle mai ni yw'r rheolwr data, mae gennych hawl i gael gwybod a ydym yn cadw gwybodaeth amdanoch, ac os ydym:

- i gael disgrifiad o'r data dan sylw
- i gael gwybod am ba ddiben y prosesir y data
- i gael gwybod pwy yw derbynwyr, neu'r dosbarth o dderbynwyr, y mae neu y gall y data gael ei ddatgelu iddynt

Mae gennych hefyd hawl i gopi o'r wybodaeth, gydag unrhyw dermau annealladwy, byrfoddau neu godau wedi eu hesbonio. Byddwch hefyd yn cael unrhyw wybodaeth sydd gennym ar ffynhonnell y data. Bydd y data yn ei ffurf ddiweddaraf.

Os ydych yn dymuno gwneud cais i gael gweld eich data personol, a elwir yn 'cais gwrthrych am wybodaeth', dylech ysgrifennu atom yn y cyfeiriad uchod.

Rhaid anfon ffi o £10 gyda'ch cais ynghyd â thystiolaeth o bwy ydych chi. Bydd angen i ni hefyd gael y manylion fydd angen i ganfod y wybodaeth rydych yn ei cheisio. Bydd cais am weld manylion personol yn derbyn sylw yn ddi-oed ac yn sicr o fewn 40 diwrnod i dderbyn y cais a'r ffi.

Os ydych yn teimlo nad yw eich cais am weld eich data personol wedi ei drin yn briodol, gallwch:

- ysgrifennu atom yn y cyfeiriad uchod er mwyn i ni geisio datrys eich cwyn
- ysgrifennu at y Comisiynydd Gwybodaeth, sydd wedi ei benodi i ystyried cwynion o'r fath yn:

  Office of the Information Commissioner
  Wycliffe House
  Water Lane
  Wilmslow, Cheshire
  SK9 5AF
  www.ico.gov.uk

Mae gan y Comisiynydd Gwybodaeth y grym i asesu a fethwyd cydymffurfio â Deddf 1988. Gall y Comisiynydd gychwyn achosion gorfodi os yw'n fodlon bod egwyddorion diogelu data wedi eu tramgwyddo. Gall y Comisiynydd hefyd argymell eich bod yn gwneud cais i'r llys yn honni methiant i gydymffurfio â darpariaethau cais gwrthrych am wybodaeth dan Ddeddf 1998. Mae'n bosib y bydd y llys yn gwneud gorchymyn yn galw am gydymffurfio â'r darpariaethau hynny ac mae'n bosib hefyd y bydd yn dyfarnu iawndal am unrhyw niwed y byddwch wedi ei ddioddef yn ogystal ag unrhyw ofid yn sgil hynny.

Gwybodaeth lle nad Awdurdod Heddlu Dyfed Powys yw'r "Rheolwr Data"

Mewn nifer o achosion, yr Heddlu ac nid Awdurdod yr Heddlu sy'n cadw gwybodaeth bersonol. Mae Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (CCH) yn cynnwys gwybodaeth am erlyniadau, euogfarnau a rhybuddion. Prif Swyddogion yr Heddlu yw'r "rheolwyr data" ar gyfer y wybodaeth hon ac nid Awdurdod Heddlu Dyfed Powys.

Y mae gennych yr hawl i gael gwybod gan Brif Swyddog a oes unrhyw wybodaeth amdanoch yn cael ei chadw ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu ac mae gennych hawl i gopi o'r wybodaeth honno. Bydd y Prif Swyddog yn rhoi'r wybodaeth honno os ydyw'n fodlon ei fod yn gwybod pwy ydych chi a'i fod wedi derbyn ffi o £10. Gall y Prif Swyddog wrthod rhoi'r wybodaeth hon os yw'r wybodaeth wedi ei chadw er mwyn atal neu ddatrys trosedd neu er mwyn dal neu erlyn troseddwyr, a lle byddai rhyddhau'r wybodaeth yn debygol o amharu ar unrhyw un o'r dibenion hyn.

Mae heddluoedd yn darparu ffurflen i'w gwneud yn haws i chi weithredu eich hawliau i wneud cais gan wrthych am wybodaeth CCH. Yn achos Heddlu Dyfed Powys dylech gysylltu â:-

Heather Hughes
Swyddog Diogelu Data'r Heddlu
Pencadlys yr Heddlu
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
Ffôn: 0845 330 2000
Ebost: heather.hughes@dyfed-powys.pnn.police.uk
Gwefan: www.dyfed-powys.police.uk

Ceisiadau dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

Nid yw Awdurdod yr Heddlu yn dal unrhyw wybodaeth dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR). Yr Heddlu sy'n dal unrhyw wybodaeth felly. Os ydych felly yn dymuno gwneud cais am wybodaeth dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol EIR, dylech ysgrifennu at:

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth
Heddlu Dyfed-Powys
Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF
E-bost: foi@dyfed-powys.pnn.police.uk

RHAN 2

CYNLLUN CYHOEDDI
RHYDDID GWYBODAETH
AWDURDOD HEDDLU DYFED POWYS

Dosbarthiadau Gwybodaeth

Dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, rhaid i'n Cynllun Cyhoeddi ddweud pa ddosbarthiadau neu fathau eang o wybodaeth y mae awdurdod yr heddlu eisoes yn eu cyhoeddi neu'n bwriadu eu cyhoeddi. Rydym yn anelu at gyhoeddi cymaint o wybodaeth â phosib ynghylch ein gwaith drwy'r cynllun, ac eithrio lle na fyddai o fudd i'r cyhoedd i ni wneud hynny, oherwydd y gallai hynny amharu ar orfodi'r gyfraith neu iechyd a diogelwch ein staff, neu ar ein gallu i sicrhau'r gwerth gorau o blismona lleol gan fod gwybodaeth yn sensitif o ran masnach.

Ar gyfer pob dosbarth rydym yn rhoi diffiniad cryno o'r wybodaeth a geir yn y dosbarth hwnnw a'i fformat. Lle codir tâl bydd hwnnw wedi ei nodi yn y polisi codi tâl ar gyfer cyhoeddiadau (gweler tudalennau 5/6).

Ar gyfer y rhai hynny heb fynediad at gyfrifiadur, mae'r holl wybodaeth a geir yn y Cynllun Cyhoeddi hwn (gan gynnwys y Cynllun ei hun) ar gael ar ffurf copi caled.

Dosbarthiadau Gwybodaeth:

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud
Beth rydym yn ei wario a sut
Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio
Sut rydym yn gwneud penderfyniadau
Ein Polisïau a'n Dulliau Gweithredu
Rhestrau a Chofrestrau
Gwasanaethau Rydym yn eu Cynnig

Mae Awdurdod Heddlu Dyfed Powys yn cyhoeddi, neu'n bwriadu cyhoeddi, gwybodaeth dan y dosbarthiadau canlynol. Ym mhob achos gellir darparu copïau electronig/caled i fersiynau Cymraeg a Saesneg drwy gysylltu â Swyddfa Awdurdod yr Heddlu. Lle cyhoeddir y wybodaeth hon ar wefan Awdurdod yr Heddlu darperir cysylltiadau gwe:

Dosbarth a Diffiniad	Cysylltiadau Gwe a Fformatau Gwahanol	Tâl
Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud		
Strwythur yr Awdurdod		
Rôl a chyfrifoldebau statudol	Cysylltiad Gwe	A, B
Enwau aelodau'r Awdurdod a'u manylion cyswllt	Cysylltiad Gwe	A, B
Penodi Aelodau (gweler penodiadau isod)	Cysylltiad Gwe	A, B
Cofnodion Presenoldeb Aelodau	Cysylltiad Gwe	A, B
Aelodaeth Pwyllgor Safonau	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Aelodaeth/Cyfansoddiad y Panel Dethol	Cysylltiad Gwe	A, B
Strwythur llywodraethu (pwyllgor)	Cysylltiad Gwe	A, B
Cynllun Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa	Cysylltiad Gwe	A, B
Strwythur Staffio'r Awdurdod		
Strwythur Staffio Sylfaenol	Cysylltiad Gwe	A, B
Manylion Cyswllt y staff hynny sy'n delio â'r cyhoedd	Cysylltiad Gwe	A, B
Gwybodaeth Gyswllt		
Manylion Cyswllt	Cysylltiad Gwe	A, B
Man cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau cyffredinol	Cysylltiad Gwe	A, B
Cysylltiadau daearyddol	Cysylltiad Gwe	A, B
Penodiadau		
Penodi Aelodau	Cysylltiad Gwe	A, B
Penodi Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa	Cysylltiad Gwe	A, B
Penodi Prif Swyddogion	Cysylltiad Gwe	A, B
Penodiadau Eraill Ysgrifenyddiaeth Awdurdod yr Heddlu Yr Heddlu	 Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe	A, B
Partneriaethau		
Cynlluniau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gaerfyrddin Ceredigion Sir Benfro Powys	 Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe	A, B

Beth rydym yn ei wario a sut		
Crynodeb o amcangyfrifon cyllidebau refeniw'r Awdurdod	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Datganiad Cyfrifon Blynyddol	Cysylltiad Gwe	A, B
Cyllidebau a osodwyd ar gyfer yr Heddlu	Cysylltiad Gwe	A, B
Costau a lwfansau a dalwyd i Aelodau	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Llythyr Archwiliad Blynyddol	Cysylltiad Gwe	A, B

Adroddiadau Archwiliad Ariannol	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Rheoliadau ariannol mewnol a'r awdurdod dirprwyedig	Cysylltiad Gwe	A, B

Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio		
Amcanion Plismona Lleol Cynllun Strategol Mewnol yr Awdurdod	Cysylltiad Gwe Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	A, B
Adroddiadau ar ddarpariaeth gwasanaeth, asesiadau perfformiad ac asesiadau gweithredol	Cysylltiad Gwe Mae asesiadau perfformiad ychwanegol ar gael mewn copïau electronig a chaled	A, B, C
Adroddiadau gan arolygwyr allanol	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Gwybodaeth ystadegol a ddarparwyd i'r Awdurdod	Copi electronig / caled yn unig	A, B, C
Proses Hunanasesu Awdurdod yr Heddlu	Copi electronig / caled yn unig	A, B

Sut rydym yn gwneud penderfyniadau		
Rhestr o gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd	Cysylltiad Gwe	A, B
Agendâu a chofnodion cymeradwy	Cysylltiad Gwe	A, B
Papurau cefndir ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd	Cysylltiad Gwe	A, B
Ffeithiau a dadansoddiadau ffeithiau a ddefnyddiwyd wrth wneud penderfyniadau gan gynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Ymgynghoriadau Cyhoeddus: ▪ Agendâu a chylchlythyrau ar gyfer cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus Paneli Dinasyddion: Sir Gaerfyrddin Ceredigion Powys Sir Benfro ▪ Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned ▪ Rhestr o gyfarfodydd cyhoeddus i ddod	Copi electronig / caled yn unig Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe	A, B

Ein Polisïau a'n Dulliau Gweithredu		
Polisïau a dulliau gweithredu ar gyfer cyflawni busnes yr Awdurdod		
Rheolau Sefydlog	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Cylchoedd Gorchwyl	Cysylltiad Gwe	A, B
Cynllun Strategol Mewnol yr Awdurdod	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	
Cod Llywodraethu Corfforaethol	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	
Cod Ymddygiad Aelodau	Cysylltiad Gwe	A, B
Rheoliadau Ariannol	Cysylltiad Gwe	A, B
Cynllun Cyswllt – Strategaeth Gorfforaethol ar	Cysylltiad Gwe	A, B

Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Gymuned		
Dirprwyo i Swyddogion	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	
Protocol Swyddogion/Aelodau	Cysylltiad Gwe	A, B
Cynllun Cydraddoldeb Hiliol	Cysylltiad Gwe	A, B
Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl	Cysylltiad Gwe	A, B
Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol	Cysylltiad Gwe	A, B
Cynllun yr Iaith Gymraeg	Cysylltiad Gwe	A, B
Polisïau a dulliau gweithredu ar gyfer darparu gwasanaethau		
Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth	Cysylltiad Gwe	A, B
Polisïau a dulliau gweithredu ynghylch cyflogi staff		
Swyddogion yr Awdurdod Cyflogi Staff (Polisïau'r Heddlu) Polisïau'r Awdurdod	 Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe	A, B
Gweithdrefn Ddisgyblu a Chwyno	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Gwasanaeth Cwsmeriaid		
Gweithdrefnau cwyno ynghylch gweithredoedd yr Awdurdod (cwynion sefydliadol)	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Cwynion am Aelodau	Copi electronig / caled yn unig	A, B, C
Cwynion am Staff	Copi electronig / caled yn unig	A, B, C
Safonau gofynnol ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth	Cysylltiad Gwe	A, B
Polisïau Rheoli Cofnodion a Data Personol		
Polisi Diogelu Gwybodaeth	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	
Polisi cadw a dinistrio cofnodion	Copi electronig / caled yn unig	A, B
Polisi diogelu data	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	
Rhestrau a Chofrestrau		
Cofnodi Diddordebau Aelodau	Copi caled yn unig	A, B
Cofnodi Rhoddion a Lletygarwch	Copi caled yn unig	A, B
Log Datgelu Deddf RhG	Copi caled yn unig	A, B
Cofrestr swyddi dan gyfyngiadau gwleidyddol	Copi caled yn unig	A, B

Gwasanaethau Rydym yn eu Cynnig		
Gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaethau'r Awdurdod		
Cynllun Busnes yr Awdurdod	Yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd	
Cynllun Plismona Lleol	Cysylltiad Gwe	A, B
Taflenni a Llyfrynnau esboniadol		
Taflen Treth y Cyngor	Cysylltiad Gwe	A, B
Crynodebau Plismona Lleol Sir Gaerfyrddin Penfro	 Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe	A, B

Ceredigion Powys	Cysylltiad Gwe Cysylltiad Gwe	
Datganiadau i'r Cyfryngau	Cysylltiad Gwe	A, B